# Gradd Sylfaen mewn Celf a Dylunio Gemau



**Yn gryno**

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i feithrin sgiliau technegol i ddod â'ch syniadau yn fyw a chreu'r genhedlaeth nesaf o gemau cyfrifiadurol.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych yn greadigol

... Oes gennych ddiddordeb brwd mewn dylunio gemau

... Ydych yn gweithio'n galed ac yn frwdfrydig

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae chwaraewyr gemau heddiw yn disgwyl datblygiadau gemau a chelf gemau realistig a llawn dychymyg 2D/3D. Byddwch yn edrych ar gefndir chwarae gemau ac yn astudio agweddau gwahanol sy'n effeithio ar chwarae gemau, gan gynnwys cysyniadau, dyluniad a

defnydd. Yn ogystal â datblygu gwybodaeth dechnegol, byddwch yn cael eich annog i ddatblygu dawn greadigol a sgiliau proffesiynol i roi i chi'r cyfle gorau o lwyddo yn y farchnad gemau cyfrifiadur. Mae'r cwrs hwn yn cael ei ddatblygu gydag arbenigwyr gemau cyfrifiadur i ddarparu hyfforddiant arbenigol ar gyfer y diwydiant.

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gofrestru ar y cwrs hwn, byddwch angen TGAU Gradd C neu uwch mewn tri phwnc, gan gynnwys Mathemateg ac Iaith Saesneg (neu gyfwerth), ag o leiaf un o'r canlynol:

Proffil BTEC Lefel 3 perthnasol gyda Teilyngdod/Teilyngdod
Graddau DD ar Safon Uwch
Graddau DE ar Safon Uwch, gyda gradd C mewn Bagloriaeth Cymru
Mynediad at Addysg Uwch lle rydych wedi cael Diploma gyda 45 'llwyddo'

Efallai y bydd gofyn hefyd i chi fynychu cyfweliad neu glyweliad, cymryd rhan mewn sesiwn weithdy, neu gyflwyno portffolio o waith fel rhan o'r broses ddethol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Wedi i chi gwblhau'r radd sylfaen, bydd cyfle i chi fynd ymlaen i BA (Anrh) Celf Gemau, lle byddwch yn cael y cyfle i ddatblygu eich sgiliau ymhellach mewn maes penodol.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Efallai y bydd gofyn hefyd i ymgeiswyr fynychu cyfweliad neu glyweliad, cymryd rhan mewn sesiwn weithdy, neu gyflwyno portffolio o waith fel rhan o'r broses ddethol.

Masnachfreintir y cwrs hwn gan Brifysgol De Cymru.

Y cod UCAS yw: 8C27